PWYLLGOR PENODI UWCH REOLWYR

Cofnodion cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr, 2025.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn bresennol: Y Cynghorydd L. Burnett (Cadeirydd); Cynghorydd B.E. Brooks (Is-gadeirydd); Y Cynghorwyr G.D.D. Carroll, E. Goodjohn, Dr. I.J. Johnson ac E. Williams.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

538a CYHOEDDIAD –

Cyn dechrau busnes y Pwyllgor, darllenodd y Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y datganiad canlynol: “A gaf i atgoffa pawb sy’n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio’n fyw yn ogystal â’i recordio dros y rhyngrwyd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i’w wylio yn y dyfodol”.

538b COFNODION –

PENDERFYNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr, 2025 fel cofnod cywir.

538c DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

538d RECRIWTIO I GYFARWYDDWR YR AMGYLCHEDD A THAI (CAC) –

Roedd yr adroddiad gerbron y Pwyllgor i ystyried cam cyfweld recriwtio i swydd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai.

Ceisiodd yr adroddiad recriwtio i'r swydd ar sail penodiad dros dro ar sail secondiad am gyfnod o hyd at 18 mis, lle byddai gofyn i'r Aelodau gadarnhau ymgeisydd addas ar gyfer y swydd mewn trafodaeth breifat.

Byddai manylion llawn yr ymgeiswyr, y dull cyfweld a phwnc y cyflwyniad yn cael eu rhannu gyda'r Pwyllgor mewn trafodaeth breifat.

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad a bod recriwtio i swydd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai yn cael ei symud ymlaen ar sail dros dro o 18 mis.

(2) Y dylid penodi Trevor Baker i swydd dros dro Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai.

(3) Y dylid dirprwyo manylion y penodiadau sy'n weddill i'r Prif Weithredwr, ar ôl ymgynghori â Phennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, fel y bo'n briodol, fel y'i cadarnheir gan Aelodau Etholedig y Pwyllgor.

Rhesymau dros benderfyniadau

(1) Er mwyn caniatáu recriwtio i'r swydd.

(2) Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor.

(3) Er mwyn sicrhau bod holl swyddogaethau'r Cyngor yn cael eu cyflawni o fewn ardal y Gyfarwyddiaeth.